Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
# Y Ganolfan Ddinesig
# Pont-y-pŵl
# NP4 6YB

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gyfanswm poblogaeth o ryw 95,000. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 31 o ysgolion prif ffrwd. Mae 25 ysgol gynradd, yn cynnwys tair ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae chwe ysgol uwchradd, y mae un ohonynt yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, mae un ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion.

Dechreuodd y prif weithredwr yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2021, a phenodwyd y prif swyddog addysg yn 2012. Mae arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei rôl er mis Rhagfyr 2016 a dechreuodd y prif ddeiliad portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg yn y swydd hon yn 2016. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r awdurdod lleol yn 2011.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn un o bum awdurdod lleol yng nghonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA).

Yn 2021-2022, mae cyllideb addysg net y Cyngor tua £96,000,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2021-2022 yw £4,877, sy'n agos at y cyfartaledd yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Nhorfaen wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 26% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20%
- Mae 11% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16%
- Mae 6% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 13%
- Mae gan 21% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA), sydd ychydig bach uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 20%.
- (Sylwer bod y data hwn o fis Ionawr 2021, cyn newidiadau i'r modd y caiff darpariaeth AAA ei dyrannu)
- Roedd 229 o blant i bob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2021, sef y gyfradd uchaf yng Nghymru

## Crynodeb

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr yn Nhorfaen wedi cydweithio â'u partneriaid i amlinellu eu huchelgais ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr. Mae'r gwaith hwn wedi helpu cryfhau perthnasoedd rhwng swyddogion yr awdurdod lleol ac arweinwyr ysgolion, ac yn dangos ymrwymiad ar y cyd i wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae perfformiad mewn ysgolion cynradd yn gadarn, ar y cyfan, ond mae'r perfformiad gwan mewn ysgolion uwchradd dros gyfnod yn broblem sylweddol i'r awdurdod lleol. Mae gwaith i fynd i'r afael â hyn a gwella deilliannau disgyblion wedi bod yn rhy araf ac yn peri pryder o ran cyrhaeddiad addysgol a lles pobl ifanc, yn ogystal â'u cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol.

Mae gan uwch arweinwyr drosolwg eang o waith y gwasanaeth eang, ond nid ydynt yn dwyn swyddogion ar bob lefel i gyfrif yn ddigon da nac yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith eu gwaith. Mae swyddogion yn adrodd i aelodau etholedig, gan gynnwys y pwyllgor craffu, yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth y maent yn ei rhannu yn galluogi aelodau etholedig i ddwyn y cabinet i gyfrif yn gadarn i helpu sicrhau bod gwasanaethau addysg effeithiol yn cael eu darparu.

Mae diffyg trylwyredd mewn prosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant ar draws y gyfarwyddiaeth addysg. Mae hunanwerthuso'r gwasanaeth yn wan, ac nid yw swyddogion yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn nodi agweddau pwysig ar waith y gwasanaeth sydd angen eu gwella. Nid oes cysylltiad clir rhwng prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. O ganlyniad i hyn, mae blaenoriaethau ar gyfer gwella yn aml yn rhy eang ac nid ydynt yn fanwl gywir, ac nid yw swyddogion yn gosod targedau mesuradwy a graddfeydd amser priodol y gallant werthuso cynnydd yn eu herbyn. Mae'r gwendidau hyn yn amlwg mewn cynlluniau ar bob lefel.

Mae cryfderau o fewn y tîm mynediad ac ymgysylltu, gan gynnwys cyflwyno cynlluniau ad-drefnu ysgolion. Ceir enghreifftiau nodedig o arfer gryf iawn yn y ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid hefyd, ond mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth o fewn y timau dysgu a chymorth disgyblion yn wannach. Nid yw blaenoriaethau ar gyfer y tîm dysgu yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella ysgolion nac yn dwyn y consortiwm rhanbarthol i gyfrif, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn Nhorfaen sydd wedi treulio eu holl addysg uwchradd mewn ysgolion sy'n peri pryder. Mae'r gwasanaeth cymorth disgyblion yn darparu ystod o wasanaethau cymorth arbenigol buddiol ond nid oes ganddo ymagwedd systematig at gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ei ddarpariaeth. Nid yw cynllunio strategol ar gyfer disgyblion ag ADY yn ddigon cynhwysfawr, ac nid yw'n cynnwys ehangder y ddarpariaeth y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdani.

At ei gilydd, mae diffyg gallu arweinwyr i fynd i'r afael â materion hirsefydledig mewn ysgolion uwchradd, a gwerthuso eu gwaith yn gywir ac ysgogi gwelliannau yn gyflym, yn ein harwain at y casgliad bod Torfaen yn awdurdod lleol sy'n peri pryder sylweddol.

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd

A2 Cryfhau rheoli perfformiad

A3 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant a’r cyswllt rhyngddynt

A4 Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn diweddaru eu cynlluniau gwella i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr trwy gynhadledd wella ôl-arolygiad a chynadleddau cynnydd. Bydd ymweliad monitro yn cael ei gynnal tua 30 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, a achosodd i ni atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data am ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod gan fod y pandemig wedi achosi newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau, ac wedi effeithio ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr yn y sector ôl-16.

Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar ble mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom 12 ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd. Barnom fod safonau'n rhagorol mewn dwy ysgol gynradd, yn dda mewn pum ysgol gynradd ac yn ddigonol mewn pum ysgol gynradd. O'r ddwy ysgol uwchradd, barnom fod safonau'n ddigonol mewn un, ac yn anfoddhaol yn y llall. Mae'r barnau hyn ar gyfer safonau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn wan o gymharu â chanfyddiadau cenedlaethol o arolygiadau yn ystod yr un cyfnod.

Cafodd yr ysgol uwchradd y barnwyd bod ganddi safonau digonol ei rhoi yn y categori adolygu gan Estyn, ac aeth i'r categori mesurau arbennig yn ddiweddarach, yn rhannol o ganlyniad i ostyngiad mewn safonau. Yn ychwanegol, mae un ysgol uwchradd wedi bod yn y categori mesurau arbennig er 2017 ar ôl cael ei rhoi yn y categori adolygu gan Estyn i ddechrau yn 2015. Ni chafodd yr un o'r 12 ysgol gynradd a arolygwyd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol statudol. Rhoddwyd un ysgol gynradd yn y categori dilynol adolygu gan Estyn, ac mae wedi cael ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol erbyn hyn.

Roedd safonau cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd cyn y pandemig yn isel. Roedd deilliannau ar gyfer disgyblion yn ysgolion uwchradd Torfaen yn amrywiol, ac islaw'r deilliannau mewn ysgolion tebyg, ar y cyfan. Bu gwelliant yn safonau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y tair blynedd cyn y pandemig, ac roeddent yn cyd-fynd yn fras â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn yr arolygiadau ysgolion rhwng 2017 a 2019, roedd cyfran yr ysgolion a gafodd farn 'da' neu 'rhagorol' am les ac agweddau at ddysgu yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. O gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, mae llai o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae cyfran is o ddisgyblion yn teimlo bod rhywun y gallant siarad ag ef / â hi yn yr ysgol os ydynt yn poeni neu'n ddigalon.

Rhwng 2017 a 2019, roedd presenoldeb yn Nhorfaen yn cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol ar y cyfan, sy'n dda o gofio cyd-destun economaidd gymdeithasol Torfaen. Fodd bynnag, cynyddodd lefelau absenoldeb parhaus, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn ystod y cyfnod hwn ac roeddent yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Dros gyfnod, mae cyfraddau gwaharddiadau ysgol yn cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol, ar y cyfan. Yn ddiweddar, bu gostyngiad sylweddol mewn gwaharddiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a disgyblion eraill bregus sydd wedi'u heffeithio gan drawma sylweddol.

Mae plant yn elwa ar ystod helaeth o wasanaethau chwarae yn Nhorfaen. Mae'r plant bregus niferus sy'n ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol trwy weithgareddau chwarae targedig ac yn cymryd rhan mewn sesiynau chwarae sy'n helpu lleihau eu gorbryder. Cefnogir lles pobl ifanc trwy amrywiaeth o weithgareddau'r gwasanaeth ieuenctid. Er enghraifft, yn y grŵp byw yn annibynnol i ddynion, mae pobl ifanc yn magu hyder trwy ddatblygu eu medrau coginio a gwella eu gallu i reoli eu cyllid personol. Ceir enghreifftiau da o blant a phobl ifanc yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau o fewn gwasanaethau a darparwyr addysg unigol, gan gynnwys yn y gwasanaeth ieuenctid. Mae'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau strategol yr awdurdod lleol yn gyfyngedig.

Trwy ystod o arolygon cenedlaethol, dywed plant a phobl ifanc yn Nhorfaen nad ydynt mor gorfforol egnïol â'u cyfoedion, ar y cyfan, yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, fel ei gilydd.

**Gwasanaethau addysg**

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

**Pa mor effeithiol yw prosesau gwella ysgolion, yn enwedig y gwaith i wella ansawdd yr addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion?**

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei berthnasoedd ag ysgolion yn nodedig. Mae hyn wedi cynnwys gweithio ochr yn ochr â nhw i lywio trwy heriau'r pandemig a chefnogi lles staff a disgyblion mewn ysgolion. O ganlyniad, mae deialog broffesiynol rhwng yr awdurdod lleol a'i ysgolion yn fwy arferol, gonest a thryloyw.

Dros gyfnod, nid yw'r awdurdod lleol wedi cael effaith ddigon cryf ar wella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. O ganlyniad, mae gormod o ysgolion wedi cael eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol neu gategori statudol Estyn neu wedi peri pryder i'r awdurdod lleol am gyfnod amser estynedig.

Mae trafodaethau proffesiynol a gyflwynwyd yn ddiweddar gydag ysgolion wedi cynorthwyo'r awdurdod lleol i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ei ysgolion. Caiff cymorth ar gyfer ysgolion ei deilwra'n gynyddol i'w hanghenion penodol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan gyflwyno penaethiaid cymheiriaid i fod yn Bartneriaid Gwella Ysgolion sy'n gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i gynllunio a nodi gofynion cymorth. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac mae'n rhy gynnar i fesur effaith y dulliau hyn ar wella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu mewn ysgolion yn Nhorfaen.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei berthynas â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ac yn dechrau cynnig her gynyddol ar agweddau ar eu gwaith. Mae swyddogion, gan weithio gyda'u cymheiriaid rhanbarthol, wedi gweithio'n briodol i symleiddio'r dulliau ar gyfer adrodd am weithgarwch gwella ysgolion, ac mae hyn wedi eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i'w hysgolion.

Pan mae ysgolion wedi peri pryder am gyfnod amser estynedig, mae swyddogion wedi gweithio gyda'r GCA i ddarparu cymorth ac ymyrraeth ychwanegol. Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio hysbysiadau rhybuddio a'i bwerau statudol, fel rhoi Bwrdd Gweithredol Dros Dro ar waith i ymateb i bryderon am arweinyddiaeth a llywodraethu yn un o'i ysgolion. Mae penaethiaid cynorthwyol o ysgolion eraill wedi ymgysylltu am gyfnodau penodedig mewn ysgolion uwchradd mewn categorïau statudol gyda'r nod o gyflymu cynnydd. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu hyn wedi arwain yn gyson at welliannau digonol na chynaledig yn ansawdd yr arweinyddiaeth neu'r addysgu.

Mae diweddariadau a chyfarfodydd bwrdd partneriaeth tymhorol, sy'n cynnwys gwasanaethau addysg ehangach, yn darparu cyfleoedd priodol i'r awdurdod lleol a'r GCA drafod gweithgarwch cymorth sydd wedi digwydd mewn ysgolion unigol. I gynorthwyo eu hysgolion mewn categori statudol, mae swyddogion wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â dull 'amlasiantaethol' peilot Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, mae'r paneli Tîm o Amgylch yr Ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder, sy'n cynnwys swyddogion, staff rhanbarthol, ac arweinwyr ysgolion, yn galluogi'r awdurdod lleol i archwilio'r cymorth a ddarperir, yn ogystal â rhwystrau rhag cynnydd. At ei gilydd, nid yw swyddogion yr awdurdod lleol yn herio'r wybodaeth a ddarperir trwy'r gweithgaredd hwn yn gyson yn ddigon da er mwyn sicrhau bod pob un o'r ysgolion yn cael eu cynorthwyo i wella darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae hyn wedi cyfrannu at y diffyg cynnydd gwirioneddol mewn dwy o'r tair ysgol sy'n peri pryder. Ar ben hynny, nid yw swyddogion yr awdurdod lleol yn dwyn y GCA i gyfrif yn ddigon da am eu gwaith, ac nid yw'r bartneriaeth wedi sicrhau gwelliant digon cyflym ar gyfer yr ysgolion sydd fwyaf angen cymorth.

Mae ysgolion yn Nhorfaen yn manteisio ar ystod addas o ddysgu a chymorth proffesiynol a ddarperir gan y GCA. Pan fydd angen, mae Partneriaid Gwella Ysgolion yn brocera cymorth teilwredig ychwanegol gan Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu neu bartneriaid cwricwlwm yn benodol i bwnc. Yn yr achosion gorau, caiff cymorth ei gynllunio a'i deilwra'n ofalus yn ôl anghenion unigol, ac mae ganddo feini prawf clir y deilliannau bwriadedig. Yn yr achosion hyn, mae Partneriaid Gwella Ysgolion yn sicrhau bod cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau cymorth bob amser yn ddigon clir am yr effaith fwriadedig. Yn ychwanegol, mae gwerthusiadau'n rhy amrywiol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon agos ar yr effaith a gaiff cymorth ar wella ansawdd yr addysgu neu'r arweinyddiaeth. Yn gyffredinol, mae gwerthuso dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio'n rhy agos ar lefelau ymgysylltu ac nid yr effaith ar wella arfer.

At ei gilydd, caiff llywodraethwyr ysgolion ystod addas o gymorth a dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys eu helpu i ddeall diwygiadau addysgol cenedlaethol a chynorthwyo â phenodi penaethiaid.

### Pa mor dda y mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cefnogi anghenion pobl ifanc?

Mae gwasanaeth ieuenctid Torfaen yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed gan gynnig darpariaeth mynediad agored a darpariaeth fwy targedig. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn ymgynghori'n rheolaidd â phobl ifanc i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu eu hanghenion yn dda. Mae ymagwedd gweithwyr ieuenctid yn hyblyg, ac maent yn addasu darpariaeth yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent wedi cynorthwyo llawer o bobl ifanc ar eu taith at oedolaeth.

Yn ystod y cyfnodau clo a achoswyd gan bandemig COVID-19, llwyddodd gweithwyr ieuenctid i gynnal perthnasoedd cryf gyda phobl ifanc. Fe wnaethant arwain y gwaith mewn hybiau ysgolion a pharhau â gwaith allymestyn. Gan fod gwasanaethau ieuenctid wedi dychwelyd at ffyrdd mwy arferol o weithio, mae niferoedd uchel o bobl ifanc wedi dychwelyd i ddarpariaeth mynediad agored. Mae'r bobl ifanc hyn yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella eu hyder ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn defnyddio partneriaethau effeithiol ac ymatebol gydag asiantaethau eraill a gwasanaethau'r cyngor i gefnogi anghenion ystod eang o grwpiau arbenigol, a mynd i'r afael â blaenoriaethau'r llywodraeth. Maent yn darparu cymorth targedig ar gyfer grwpiau o bobl ifanc, gan gynnwys gofalwyr ifanc, menywod ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, dynion ifanc bregus, a phobl ifanc LHDTC+. Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnig cymorth effeithiol a gofalgar ar gyfer y grwpiau hyn mewn amgylcheddau diogel a chyfforddus, gan helpu i arfogi'r bobl ifanc hyn â medrau ar gyfer byw yn llwyddiannus mewn cymdeithas.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cofnodi cynnydd a chyflawniad pobl ifanc yn dda. Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi datblygu system electronig fewnol ar gyfer cofnodi darpariaeth, cyflawniadau pobl ifanc a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae gweithwyr ieuenctid yn defnyddio'r data hwn yn effeithiol i ddatblygu darpariaeth, targedu cymorth ar gyfer pobl ifanc a rhannu gwybodaeth yn ddiogel ar draws asiantaethau pan fydd pobl ifanc yn gysylltiedig â mwy nag un gwasanaeth.

Mae staff gwaith ieuenctid yn gweithio amser llawn, ac yn meddu ar gymwysterau a phrofiad da. Gall gweithwyr ieuenctid fanteisio ar lwybr hyfforddeiaeth effeithiol a hyblyg at gymwysterau mewn gwaith ieuenctid sy'n cynnwys cyfleoedd profiad gwaith. Ceir achosion lle mae pobl ifanc sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth ieuenctid wedi dod yn weithwyr ieuenctid â chymhwyster gradd sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth wedi arloesi trwy secondio seicolegydd addysg mewn modd arloesol a hynod lwyddiannus. Mae'r cymorth gan y seicolegydd hwn yn helpu gweithwyr ieuenctid i ddatblygu strategaethau a deunyddiau dysgu effeithiol i gynorthwyo amrywiaeth eang o bobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn recriwtio siaradwyr Cymraeg ifanc lleol fel gweithwyr ieuenctid. Maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i bobl ifanc ac yn normaleiddio'r defnydd o'r iaith mewn gweithgareddau apelgar. Enghraifft nodedig o hyn yw'r prosiect 'adeiladu a dylunio go cart modur' a gyflwynir yn Gymraeg a Saesneg, fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae sicrhau bod arlwy Gymraeg ac adnoddau Cymraeg ar gael yn gyson yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu.

Caiff y gwasanaeth ieuenctid ei reoli mewn modd cefnogol a gofalgar. Caiff gweithwyr ieuenctid eu grymuso i arwain mewn datblygu a gwella'r gwasanaeth. Maent yn rhoi'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc a'r lleoedd maent yn cyfarfod wrth wraidd eu cymunedau. Mae cynllunio gwasanaethau yn cyd-fynd yn dda â'r nodau corfforaethol allweddol, sef codi cyrhaeddiad addysgol a chynorthwyo'r rhai mwyaf bregus. Mae rheolwyr yn addasu ac yn datblygu trefniadau partneriaeth yn fedrus i gyflawni'r nod hwn.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'i ffynonellau cyllid yn dda i uchafu cymorth ar gyfer pobl ifanc. Mae trefniadau cyllid yn hyblyg ac yn newid i ddiwallu anghenion datblygol. Mae trefniadau agos gyda phrosiectau sy'n cael cyllid Ewropeaidd, gan gynnwys cymorth cyflogadwyedd, a gwaith gydag asiantaethau eraill, yn galluogi gweithio effeithiol ac addasadwy.

Mae'r safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gwaith ieuenctid yn addas ac wedi'u lleoli mewn lleoliadau cymunedol cyfleus. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio gwaith partneriaeth effeithiol i rannu'r defnydd o adeiladau sy'n eiddo i asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae angen adnewyddu llawer o adeiladau er mwyn cyfoethogi profiadau pobl ifanc.

**Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol?**

Yn unol â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r ddarpariaeth ar gyfer llawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol (AAA / ADY) mewn ysgolion prif ffrwd. Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn trefnu darpariaeth trwy saith canolfan adnoddau anghenion arbennig sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd, un uned cyfeirio disgyblion ac un ysgol arbennig. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd priodol hefyd o ddarpariaeth y tu allan i'r sir ar gyfer plant a phobl ifanc na ellir bodloni eu hanghenion o fewn yr awdurdod.

Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod o wasanaethau cymorth arbenigol, y mae parch mawr atynt, ar y cyfan, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy drefniadau wedi'u comisiynu. Mae'r rhain yn cynnig gwasanaethau ar draws ystod y ddarpariaeth, gan gynnwys lleoliadau'r blynyddoedd cynnar.

Mae gan ychydig dros un o bob pum disgybl AAA, sydd ychydig yn is nag ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, bu cynnydd yn nifer y disgyblion ag awtistiaeth, anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith, a'r rhai ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.

At ei gilydd, mae cryfderau yn y modd y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo'i ysgolion a lleoliadau eraill i ddarparu ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyngor ac arweiniad buddiol ar baratoi ar gyfer diwygio ADY a threfniadau a ddeellir yn dda ar gyfer atgyfeiriadau. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol ymagwedd systematig at ddadansoddi data allweddol sy'n berthnasol i'w ddarpariaeth gwasanaethau ADY ei hun neu'r ddarpariaeth arbenigol mewn ysgolion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i uwch arweinwyr ddeall ansawdd neu effaith y ddarpariaeth ac yn rhwystro gallu'r awdurdod i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol tymor hwy ar gyfer disgyblion ag AAA, mae gwaharddiadau parhaol a thymor byr ar gyfer disgyblion ag AAA wedi bod yn amrywiol, ond wedi cynyddu yn fwy diweddar. Mae disgyblion ag AAA deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na disgyblion heb AAA, yn unol â ffigurau cenedlaethol. At ei gilydd, o gymharu ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth, mae disgyblion ag AAA yn gyffredinol yn llai tebygol o gael eu gwahardd o ysgolion yn Nhorfaen.

Mae ysgolion a lleoliadau yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i fanteisio ar wasanaeth swyddogion arbenigol yr awdurdod lleol, ac mae dealltwriaeth glir o drefniadau ar gyfer atgyfeiriadau i baneli AAA. Mae ysgolion yn croesawu'r cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan swyddogion. Mae'r awdurdod lleol yn ehangu darpariaeth yn yr ysgol yn effeithiol ar gyfer disgyblion nad ydynt efallai'n bodloni trothwyau ar gyfer lleoliad arbenigol. Fodd bynnag, nid oes meini prawf derbyn nac ymadael clir ar gyfer darpariaeth arbenigol. Mae trefniadau ar gyfer cwblhau'r broses datganiadau yn effeithiol. O ganlyniad, cyflwynir bron pob datganiad o fewn graddfeydd amser statudol. Yn ychwanegol, mae apeliadau i dribiwnlys yn isel iawn yn hanesyddol.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi darparu pecyn cymorth ADY buddiol ar gyfer pob ysgol. Mae hyn yn amlygu'r amserlen diwygio ADY gyda gweithgareddau allweddol i ysgolion eu cwblhau erbyn dyddiadau penodol. Mae ysgolion hefyd yn derbyn dogfennau ategol, gan gynnwys polisïau a thaflenni gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth bwysig yn ymwneud â throthwyau na meini prawf ar gyfer cynlluniau datblygu unigol a fydd yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol yn hytrach nag ysgolion. Ni threfnwyd bod fersiwn Gymraeg y pecyn cymorth hwn ar gael i ysgolion ar yr un pryd.

Yn ychwanegol, yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi dogfen ddefnyddiol i ysgolion a ddatblygwyd yn rhanbarthol, sef "egwyddorion ac arferion". Mae'r ddogfen hon yn cofnodi disgwyliadau'r awdurdod lleol o ran datblygu arferion ysgol cynhwysol. Mae'r awdurdod lleol yn haeru mai'r ddogfen hon yw ei strategaeth ar gyfer ADY. Fodd bynnag, caiff y ddogfen ei thargedu at ysgolion ac nid yw'n cynnwys ehangder y gwasanaethau na'r ddarpariaeth y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

Mae gan yr awdurdod lleol ac ysgolion hanes cryf o gydweithio ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth. Mae hyn, ynghyd ag ymagwedd leol at ddatblygu arweinwyr diwygio ADY, a gweithio mewn clystyrau, wedi cynorthwyo ysgolion yn dda yn eu paratoadau ar gyfer diwygio ADY a'i weithredu. Enghraifft o hyn fu datblygu'r 'matrics rhwystr rhag dysgu' yn rhanbarthol. Ar ôl llenwi holiadur ar-lein, caiff adroddiad ei lunio ar unwaith sy'n darparu strategaethau ac adnoddau defnyddiol iawn i gynorthwyo disgyblion. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos ble gallai fod angen ymyriadau mwy penodol ac arbenigol. Mae'r awdurdod lleol yn gofyn yn gynyddol am dystiolaeth gan ysgolion ar eu defnydd o strategaethau cyn gwneud penderfyniadau ar gyfer cymorth mwy arbenigol.

Mae defnyddio diwrnodau wedi'u haddasu neu amserlenni llai wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi drafftio polisi i ymgynghori arno, ac wedi dechrau cofnodi gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio amserlenni llai. Fodd bynnag, nid oes ganddo oruchwyliaeth ddigonol o ddefnyddio diwrnodau wedi'u haddasu, gan gynnwys, er enghraifft, faint o oriau

ysgol nad yw disgyblion yn mynychu, neu am ba mor hir. Mae defnyddio diwrnodau wedi'u haddasu yn destun pryder mynych gan rieni wrth ofyn am gyngor a chymorth gan y gwasanaeth partneriaeth rhieni. Yn yr un modd, nid oes gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth ddigon clir o ddefnyddio darpariaeth cwricwlwm amgen a ddefnyddir gan ysgolion. Mae'r rhain yn faterion y mae'r grŵp datblygu ADY a ffurfiwyd yn ddiweddar yn mynd ar eu trywydd.

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi dechrau cael sgyrsiau strwythuredig ag ysgolion prif ffrwd sy'n cynnal canolfannau adnoddau anghenion arbennig. O'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, mae'r rhain yn dangos nad yw'r awdurdod lleol yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r darpariaethau hyn, er enghraifft sut caiff y canolfannau adnoddau anghenion arbennig eu staffio, deilliannau ar gyfer disgyblion, gan gynnwys gwybodaeth am bresenoldeb a gwaharddiadau, a ph'un a yw anghenion disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r darpariaethau wedi newid dros gyfnod.

Mae nifer y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, sy'n cael eu rhoi mewn ysgolion y tu allan i'r sir, wedi cynyddu dros gyfnod. Mae gan bob un o'r disgyblion hyn ADY yn ymwneud â chyflyrau'r sbectrwm awtistig neu anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r awdurdod lleol yn monitro cynnydd disgyblion bob blwyddyn yn gyffredinol, ond nid yw'n cofnodi ac yn adrodd yn systematig ar gyrchfannau disgyblion na'u cynnydd yn erbyn disgwyliadau.

At ei gilydd, mae gwasanaethau ar gyfer disgyblion ag AAA trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhy amrywiol, ac mewn rhai meysydd allweddol, nid ydynt ar gael. Fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), mae'r awdurdod lleol yn bwriadu agor canolfan adnoddau anghenion arbennig mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg leol. Mae cydweithwyr ar draws y rhanbarth wedi bod wrthi'n datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn ddigon ymwybodol o sut gallai'r rhain fod o fudd i ddisgyblion yn ysgolion Torfaen.

Ceir dealltwriaeth dda o ddirprwyo arian AAA i ysgolion. Mae panel cyllid ADY yn goruchwylio ceisiadau gan ysgolion am gyllid sy'n ychwanegol i'r gyllideb graidd AAA. Mae'r panel yn ystyried ceisiadau ac yn herio p'un a yw ysgolion yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer disgyblion. Pan fo'n briodol, dyrennir cymorth ychwanegol ac adnoddau ariannol.

**Beth fu effaith ad-drefnu ysgolion, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion yn y sector ôl-16 sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg?**

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno cyfres o brosiectau ad-drefnu ysgolion yn llwyddiannus fel rhan o fand cyntaf rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif. Mae swyddogion yn cydnabod blaenoriaethau ad-drefnu ysgolion yn briodol, er enghraifft trwy ddadansoddi data derbyniadau disgyblion ac adroddiadau ar gyflwr adeiladau ysgolion. Mae cynlluniau ad-drefnu ysgolion yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau lefel uwch yr awdurdod, fel y rhai a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi cael cymorth da gan aelodau etholedig i resymoli nifer yr ysgolion yn yr awdurdod. O ganlyniad, mae cyfran y lleoedd dros ben mewn ysgolion wedi gostwng, ac mae capasiti ysgolion bellach yn cyd-fynd â gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer darparu'r gwerth gorau posibl am arian. Yn ychwanegol, caiff mwy o ddisgyblion fynediad at

lwybrau cerdded diogel i'r ysgol, ac mae mwy o gyfleusterau cymunedol ar gael yn ysgolion yr awdurdod lleol.

Trwy fuddsoddi mewn ysgolion newydd a phrosiectau adnewyddu, mae safon gyffredinol adeiladau ysgolion yn yr awdurdod wedi gwella. Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn blaenoriaethu cynnal adeiladau ysgolion presennol yn briodol. Mae swyddogion addysg yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o faes gwasanaeth 'cymdogaeth' yr awdurdod lleol er mwyn mynd i'r afael â diffygion yng nghyflenwad adeiladau ysgolion yn briodol, gan roi pwyslais addas ar iechyd, diogelwch a pharhad busnes.

Mae'r awdurdod wedi rhesymoli darpariaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn briodol fel rhan o Fand A rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif trwy weithio mewn partneriaeth â Choleg Gwent i sefydlu Parth Dysgu Torfaen. Trwy Barth Dysgu Torfaen, mae'r awdurdod wedi sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod fwy helaeth o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae'r ddarpariaeth newydd yn cynnig cyfle i bobl ifanc fanteisio ar ystod o gyfleusterau o ansawdd uchel i gefnogi eu hastudiaethau, er enghraifft technoleg dylunio graffeg, labordai gwyddoniaeth, a theatr. Mae cytundeb partneriaeth Parth Dysgu Torfaen yn amlinellu egwyddorion addas ar gyfer cydweithio ynghyd â mesurau atebolrwydd gwerthfawr. Fodd bynnag, mae'r cytundeb ar ei ffurf ddrafft o hyd, ac nid yw pob un o'r gweithgareddau gwerthuso a amlinellir ynddo yn gwbl weithredol ar hyn o bryd.

Nid yw dysgwyr sy'n dymuno manteisio ar ddarpariaeth ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael cyfle i ddilyn yr un amrywiaeth o gyrsiau â dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r awdurdod yn dechrau archwilio ffyrdd i ehangu ystod yr opsiynau ôl-16 sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft trwy gysylltu ag awdurdodau cyfagos i ystyried opsiynau dysgu o bell, er ei bod yn ddyddiau cynnar iawn o ran y gwaith hwn. Pan fo'n briodol, mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu ymagwedd strategol at ad-drefnu ysgolion, er enghraifft trwy gytuno ar ymagwedd at reoli'r galw am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r awdurdod.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi rhoi ffocws cynyddol ar ddatblygu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae capasiti digonol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i fodloni'r galw uniongyrchol a thwf yn y dyfodol. Mae hyn o ganlyniad i fuddsoddi yn ystod Band A y rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn ogystal â chynlluniau sy'n ffurfio rhan o Fand B y rhaglen. Er enghraifft, bydd cynlluniau i ymestyn darpariaeth yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod i ddarparu ar gyfer disgyblion o dair oed yn cynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg yn rhan ganolog yr awdurdod. Mae'r awdurdod wedi gwneud cynlluniau addas i gefnogi poblogi'r sector cynradd yn raddol, er enghraifft trwy ddyrannu cyllid i ddarparu uwch arweinydd â phrofiad addas ar gyfer yr ysgol. Megis dechrau cael eu datblygu y mae cynlluniau i sefydlu darpariaeth trochi hwyr ddynodedig i gynorthwyo disgyblion i gael addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol adegau derbyn. Mae'r awdurdod yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn y blynyddoedd cynnar yn ei asesiad digonolrwydd gofal plant, ac yn sicrhau bod darpariaeth o'r fath yn ystyried datblygiadau trefniadaeth ysgolion, er enghraifft trwy sicrhau bod darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael i fwydo i mewn i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ddiweddar iawn, ar y cyd ag aelodau o Fforwm Addysg Cymru, mae'r awdurdod wedi datblygu llyfryn gwybodaeth defnyddiol i rieni i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae codi deilliannau addysgol ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc wedi bod yn un o dair blaenoriaeth gorfforaethol allweddol Torfaen am y pum mlynedd ddiwethaf. Cefnogir yr uchelgais hon gan arweinydd a dirprwy arweinydd y cyngor, ac mae gan y naill a'r llall ohonynt ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl ifanc Torfaen.

O ganlyniad i heriau'r pandemig, mae arweinwyr wedi adnewyddu cynllun corfforaethol dros dro'r cyngor yn briodol. Bellach, mae'r flaenoriaeth ar gyfer addysg yn adlewyrchu'n well eu huchelgais i gefnogi lles plant a phobl ifanc, yn ogystal â chodi cyrhaeddiad addysgol. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae cyllid y cyngor i ysgolion wedi cynyddu'n sylweddol, gan adlewyrchu ymrwymiad yr aelodau etholedig i gyflawni eu gweledigaeth. Yn ychwanegol, mae aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau beiddgar i gefnogi eu gweledigaeth, fel sefydlu Parth Dysgu Torfaen ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 19 mlwydd oed ar draws y fwrdeistref sirol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae camau gweithredu i ysgogi gwelliannau o fewn y gwasanaethau addysg yn Nhorfaen wedi bod yn rhy araf. Nid yw'r awdurdod lleol wedi sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc, yn enwedig yn y sector uwchradd, yn cael cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel.

Mae'r prif weithredwr a benodwyd yn ddiweddar yn cyfleu ei uchelgais yn dda ar gyfer yr holl wasanaethau yn Nhorfaen ac yn mynegi'n glir sut mae'n disgwyl i uwch swyddogion gymryd camau i gyflawni'r genhadaeth hon. Mae'n cydnabod bod angen gwella llywodraethu ac atebolrwydd ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys o fewn gwasanaethau addysg. Mae wedi dechrau rhoi systemau rheoli perfformiad mwy cadarn ar waith i ddwyn adrannau ac unigolion i gyfrif am ansawdd eu gwaith, ond megis dechrau cael eu datblygu y mae'r rhain, ac nid ydynt wedi arwain at ddeilliannau gwell eto.

Mae aelodau o'r pwyllgor craffu ar addysg yn trafod yn briodol adroddiadau aelodau cabinet a baratowyd gan uwch swyddogion. Yn yr enghreifftiau gorau, er enghraifft wrth ystyried adroddiad hunanwerthuso diweddaraf y gwasanaeth, maent yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol i'w helpu i ddeall y materion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i herio'r cabinet ynghylch gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg.

Mae gan y Prif Swyddog Addysg drosolwg eang o'r gweithgarwch sy'n digwydd yn y gwasanaeth addysg. Mae'n cael y wybodaeth ddiweddaraf gan swyddogion trwy ddeialog reolaidd a chyfarfodydd adolygu perfformiad bob tymor gydag arweinwyr gwasanaethau. Er bod y rhyngweithio hwn yn ddefnyddiol ar gyfer myfyrio ar berfformiad, nid yw'n ddigon trylwyr, ac nid yw'n dwyn swyddogion i gyfrif am ddeilliannau lefel gwasanaeth. Yn gyffredinol, nid yw timau o fewn y gwasanaeth addysg yn darparu adroddiadau digon trylwyr am eu gwaith. O ganlyniad, ni all uwch swyddogion werthuso effaith y gwaith ar draws y gwasanaeth addysg yn gywir.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae swyddogion wedi gwella perthnasoedd ag ysgolion yn nodedig. Rhoesant gymorth gweithredol amserol a buddiol i ysgolion yn ystod y pandemig, sydd wedi cael ei werthfawrogi gan arweinwyr ysgolion. Mae'r uwch

swyddog a'r aelod cabinet yn ymgysylltu'n dda ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys y grŵp strategaeth penaethiaid. Mae swyddogion yn ymgynghori â phenaethiaid hefyd wrth ddatblygu cynlluniau strategol, er enghraifft wrth gytuno ar flaenoriaethau'r awdurdod lleol o fewn cynllun busnes y consortiwm rhanbarthol, ac i lywio eu hunanwerthuso. Mae partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd yn agos i greu gweledigaeth o'r newydd ar gyfer y gwasanaeth addysg, o'r enw eu 'Huchelgeisiau ar y Cyd'. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r trefniadau i gasglu adborth gan blant a phobl ifanc wedi eu datblygu'n dda.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r consortiwm rhanbarthol. Maent yn trafod ysgolion unigol yn rheolaidd ac yn cytuno ar y cymorth angenrheidiol i fodloni anghenion pob ysgol. Fodd bynnag, dros gyfnod, mae cyflymdra'r gwelliant mewn ysgolion uwchradd mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn wedi bod yn araf. O ganlyniad, mae perfformiad mewn gormod o ysgolion uwchradd wedi parhau i beri pryder, ac mae hyn yn ddiffyg sylweddol. Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau'r capasiti arwain yn yr ysgolion hyn yn ddiweddar, trwy benodi arweinwyr llwyddiannus dros dro o ysgolion mewn awdurdodau cyfagos. Nid yw'r trefniadau hyn wedi arwain at y gwelliannau angenrheidiol ym mhob achos. Yn ychwanegol, nid yw cynlluniau'r awdurdod lleol i ddatblygu capasiti arwain effeithiol ar draws ei ysgolion i sicrhau cynllunio dilyniant llwyddiannus wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae diffyg trylwyredd digonol ar lefel gwasanaeth ac ar draws llawer o dimau o ran gwerthuso gwaith y gwasanaeth. Nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar effaith, a chaiff ei gyflwyno'n rhy aml fel disgrifiad o gamau gweithredu sydd wedi digwydd. Pan fydd data a thystiolaeth ar gael, nid yw swyddogion yn dadansoddi neu'n gwerthuso hyn yn ddigon da i helpu llywio eu strategaeth ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid yw'r cyswllt rhwng hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon cryf. Ar hyn o bryd, nid yw prosesau'r awdurdod lleol ar gyfer hunanwerthuso, monitro a sicrhau ansawdd ei waith wedi'u datblygu'n ddigonol ac maent yn anghyson.

Mae ansawdd cynllunio gwelliant ar draws y gwasanaeth yn anghyson. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cynlluniau'n cynnwys targedau neu gerrig milltir i fonitro cynnydd yn eu herbyn. Fodd bynnag, nid oes mesurau perfformiad addas mewn llawer o gynlluniau i alluogi arweinwyr i olrhain cynnydd dros gyfnod neu werthuso effaith unrhyw waith sy'n cael ei wneud. Yn aml, nid oes eglurder na ffocws digonol i amcanion, ac ni ellir mesur meini prawf llwyddiant, sy'n golygu ei bod yn anodd barnu cynnydd yn gywir. Nid yw ystod o gynlluniau ar draws y gwasanaeth yn cyd-fynd â'i gilydd yn ddigonol, sy'n rhwystro gallu swyddogion i ysgogi gwelliant mewn llawer o feysydd pwysig, ac mae'n anodd i swyddogion werthuso eu heffaith ar wella deilliannau. Nid yw'r awdurdod lleol wedi gwneud gwelliannau cynaledig yn erbyn llawer o argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Gall swyddogion ac aelodau elwa ar ystod eang o gyfleoedd i ymgymryd â dysgu proffesiynol rheolaidd ac ystyrlon. Er enghraifft, gall swyddogion fanteisio ar ddigwyddiadau a deunydd perthnasol a gynigir gan y consortiwm. Yn ychwanegol, mae'r Tîm Seicoleg Addysg yn darparu cymorth a hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer aelodau o'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Ceir diwylliant priodol o ddiogelu corfforaethol o fewn yr awdurdod lleol. Mae'r holl gyflogeion ac aelodau etholedig yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu, ac mae gan bob maes gwasanaeth swyddog arweiniol diogelu dynodedig. Mae swyddogion

diogelu addysg yn darparu lefel uchel o gymorth ar gyfer ysgolion, gan gynnwys cyngor ar faterion diogelu, diweddariadau diogelu rheolaidd, a rhannu dolenni defnyddiol at gyfleoedd hyfforddi. Yn ychwanegol, mae pob ysgol yn cyflwyno hunanwerthusiad diogelu blynyddol manwl. Mae swyddogion yn dadansoddi pob un ohonynt ac yn rhoi adborth pwrpasol i ysgolion ar agweddau y mae angen iddynt fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, nid ydynt yn gofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth am achosion o ymyrraeth gorfforol nac yn dadansoddi data y maent yn ei gasglu gan ysgolion ar achosion o fwlio.

Nid oes gan aelodau etholedig drosolwg digon cryf o ddiogelu mewn addysg. Nid yw'r Cabinet yn herio swyddogion ynglŷn â'u hadroddiad diogelu blynyddol yn ddigon da.

Mae'r modd mae'r awdurdod lleol yn blaenoriaethu addysg yn adlewyrchu cyfran gynyddol y cyllid y mae'n ei dyrannu i wasanaethau addysg, sydd wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru am nifer o flynyddoedd. Dirprwyodd yr awdurdod lleol ganran is o'i gyllideb addysg i ysgolion ar gyfer 2021-2022 nag ar gyfer pob awdurdod lleol arall yng Nghymru ac eithrio un, ond mae'n dyrannu cyfran uwch o'i gyllideb refeniw i wasanaethau addysg yn gyffredinol nag ar gyfer mwyafrif yr awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae hefyd wedi blaenoriaethu cyllid cyfalaf i gyflwyno'i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Tanwariwyd y gyllideb addysg yn gyffredinol yn 2020-2021, a disgwylir y bydd yr awdurdod lleol yn tanwario eto yn 2021-2022. Nid yw'r awdurdod lleol yn defnyddio data cymharol i gymharu costau ei wasanaethau addysg gydag awdurdodau eraill.

Yn bennaf o ganlyniad i gyllid grant ychwanegol a gafwyd yn ystod y pandemig, mae balansau ysgolion cyffredinol wedi cynyddu o £1.8 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2020 i sefyllfa ragamcanol o ryw £8 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Nid yw'r awdurdod lleol yn bwriadu cymryd y balansau hynny'n ôl, ond mae'n bwriadu gweithio gydag ysgolion i ddefnyddio'r balansau hynny'n briodol yn y tymor canolig. Cymhwyswyd proses rheoli ariannol yr awdurdod lleol ar gyfer ysgolion sydd â diffyg o ran balansau, sy'n golygu bod angen llunio cynllun adfer ynghyd â chais am ddiffyg trwyddedig. Mae gan yr awdurdod lleol gytundebau lefel gwasanaeth gydag ysgolion ar gyfer cyflwyno ystod o wasanaethau cymorth, ac mae nifer fawr o ysgolion yn manteisio ar y rhain, ar y cyfan.

Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion, sy'n cynnwys penaethiaid ysgolion a swyddogion fel ei gilydd, yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion ariannol allweddol sy'n effeithio ar ysgolion. Mae'r Fforwm wedi nodi bod angen adolygu'r model cyllido ysgolion, nad yw wedi cael ei adolygu'n gynhwysfawr er 2013. Adolygwyd y fformiwla gyllido ar gyfer disgyblion ag ADY yn fwy diweddar, yn 2018.

Mae'r awdurdod lleol yn deall y pwysau ariannol ar gyfer gwasanaethau addysg ac ysgolion, ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dyrannu cyllid ychwanegol i ymateb i hyn, gan gynnwys ar gyfer ADY a thâl ar gyfer staff ysgolion. Yn gyffredinol, mae penaethiaid o'r farn fod cymorth yr awdurdod gyda rheolaeth ariannol ar gyfer ysgolion yn gadarnhaol. Hefyd, mae'r tîm cyllid ysgolion yn gweithio'n agos gydag ysgolion i reoli eu cyllidebau, ac yn ystod y pandemig, cryfhawyd y perthnasoedd gweithio hyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/05/2022